

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 4 CHWEFORR 2020

Yn bresennol: Ei Deilyngdod Y Maer – Cyngorydd W.Tudor Owen
(Cadeirydd)

Y Cyngorwyr A.Hopcyn, E.Hughes, D.L.Jones, K.Jones, C.Larsen,
E.Lovgreen, W.R.Owen, J.W.Parry, S.Sage, M.Sarnacki, I.C.Thomas,
R.Thomas, C.Williams

Siaradwyr Gwadd:

- **Opsiynau ar gyfer y Ffordd Liniaru Fewnol, Caernarfon**

Cafwyd cyflwyniad gan Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd
(Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth a Chefn Gwlad) Cyngor
Gwynedd yn amlinellu opsiynau gwahanol o ran y Ffordd Liniaru Fewnol.

Roedd yr opsiynau fel a ganlyn:

Opsiwn 1 – Cadw'r Drosbont.

Opsiwn 2 – Tynnu'r Drosbont.

Opsiwn 3 – Pont Werdd.

Rhodddwyd manylion am yr opsiynau ynghyd â manylion am opsiynau pellach
oddi mewn i Opsiwn 1 – 3.

Roedd Dafydd yn awyddus i gyflwyno ei syniadau i'r Cyngor Tref, cyn
ymgyngori gyda'r cyhoedd.

Nodwyd:

- (1) Nad oedd y gwaith am gychwyn tan roedd y gwaith ar y ffordd osgoi
wedi ei gwblhau.
- (2) Y gellid edrych ar wahanol opsiynau, er enghraifft symud tacsis o'r
Maes, ac edrych ar y llif traffig ar y Maes.

Cafwyd sylwadau ar y gwahanol opsiynau, a croesawyd y bwriad o gael
gwared o'r isffyrdd (subways).

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth, a diolch i Dafydd Wyn Williams am y
cyflwyniad, ac am gael cynnwys y Cyngor Tref yn fuan yn y trafodaethau
(unfrydol).**

- **Heddlu Gogledd Cymru – trafod y problemau diweddar o ymddygiad gwrth-gymdeithasol yng Nghaernarfon**

Yn unol â phenderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod ar y 7fed o Ionawr, cafwyd cyflwyniad gan Jon Aspinall, Arolygydd, Heddlu Gogledd Cymru – trafod y problemau diweddar o ymddygiad gwrth-gymdeithasol yng Nghaernarfon.

Nododd bod y problemau gafwyd yng Nghaernarfon wedi eu chwyddo allan o bob rheolaeth, yn dilyn dau brif ddigwyddiad a'r Gorchymyn Gwasgaru.

Nodwyd ymhellach:

- (1) Bod trafodaethau wedi cymryd lle efo Rheolwr Plas Menai, oedd efo syniadau diddorol.
- (2) Nad oedd y toriadau i'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi bod o gymorth, a bod angen buddsoddi mewn, a gwranddo ar, pobl ifanc.
- (3) Bod y diffyg plismyn yng Nghaernarfon yn broblem.
- (4) Y dylid ymgysylltu mwy gyda phobl ifanc mewn ysgolion.
- (5) Gofynnwyd lle roedd y Clwb Ieuenctid Symudol, a oedd yn Cibyn, wedi mynd?
- (6) Bod llawer o'r PCSO's yn gadael er mwyn datblygu eu gyrfa, ond nad oedd yr Heddlu yn gallu cael rhywun yn eu lle yn ddigon sydyn.
- (7) Bod y mwyafrif o bobl ifanc Caernarfon yn ymddwyn yn wych.

Nododd yr Arolygydd ymhellach:

- (1) Y bydd 64 mwy o Swyddogion yr Heddlu am gael eu penodi yng Ngogledd Cymru, ond bod niferoedd y PCSO's yn disgyn, sydd yn broblem fawr.
- (2) Bod Gweinidogion y Stryd am gael eu rhoi mewn lle yn y dref.
- (3) Bod Non Edwards yn gwneud gwaith eithriadol o dda, llawer ohono law yn llaw gyda'r Cyngorydd J.W.Parry.

Roedd pawb yn unfrydol fod ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn broblem i bawb, ac nid dim ond yr Heddlu, a bod y Cyngor Tref yn awyddus iawn i chwarae ei ran yn y datrysiad.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth, a diolch i'r Arolygydd Jon Aspinall am y cyflwyniad, a gofyn iddo anfon manylion y PCSO's i'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau

Y Cyngorwyr W.L.Davies, B.Owen

2. Cyhoeddiadau'r Maer

- | | |
|-----------|--|
| 1.02.2020 | Cystadlaethau'r Bandiau, Galeri |
| 1.02.2020 | Ffederasiwn Sefydliadau Merched Gwynedd, Caernarfon - Dirprwy Faer yn cynrychioli'r Maer |

3. Datgan Buddiant Personol

Dim

4. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc).

Deiseb

Cyflwynwyd deiseb, ar ran Siopwyr Caernarfon, gan y Cyngorwyr W.R.Owen a J.W.Parry yn gwrthwynebu i godi'r taliadau am barcio yng Nghaernarfon.

5. Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor Llawn – 7fed o Ionawr 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

ii. Pwyllgor Personél – 13eg o Ionawr 2020

Cafodd y wasg a'r cyhoedd eu gwahardd ar gyfer yr eitem hon gan ei bod yn ymwneud â materion staffio. Fe'i gwahoddwyd yn ôl ar gyfer eitem 5(iii).

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol) ar wahân i fod y Cynghorydd A.Hopcyn yn mynd ar y rhestr wrth gefn ar gyfer y cyfweiliad yn lle'r Cynghorydd E.Lovgreen.

iii. Is-bwyllgor Adloniant – 14eg o Ionawr 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

iv. Pwyllgor Gwaith – 21ain o Ionawr 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

Bu i'r Cynghorydd W.R.Owen ymatal ei bleidlais.

v. Pwyllgor Cyllid – 23ain o Ionawr 2020

Cafodd y wasg a'r cyhoedd eu gwahardd ar gyfer yr eitem hon gan ei bod yn ymwneud â materion staffio. Fe'i gwahoddwyd yn ôl ar gyfer eitem 6.

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

6. Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn a'u talu (unfrydol).

7. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth (unfrydol).

8. Maerolaeth

Enwebu Maer etholedig am y flwyddyn 2020–2021.

Cynigwyd y Cynghorydd M.Sarnacki gan y Cynghorydd A.Hopcyn, a bu i'r Cynghorydd J.W.Parry eilio'r cynnig.

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd M.Sarnacki fel Maer etholedig am 2020-2021 (unfrydol).

Nodwyd bod cwmni efo diddordeb i ffilmio blwyddyn ym mywyd y Cyngor Tref a bydd mwy o fanylion, o bosib, i ddilyn.

Gadawodd y Cynghorydd W.R.Owen y cyfarfod am 7.38 p.m.

Gadawodd y Cynghorwyr E.Hughes, D.L.Jones a J.W.Parry y cyfarfod am 7.45 p.m.

9. Enwebiadau ar Gyrrff Llywodraethol Ysgolion

Enwebu aelod i gynrychioli'r Cyngor ar Gorff Llywodraethol Ysgol Y Gelli yn lle'r Cynghorydd R.Thomas.

Penderfynwyd enwebu'r Cynghorydd I.C.Thomas ar Gorff Llywodraethol Ysgol Y Gelli (unfrydol).

10. Clwb Ieuenctid Caernarfon

Cyflwyno - adroddiad ar y gweithgareddau yng Nghlwb Ieuenctid Caernarfon.

Penderfynwyd gofyn i gynrychiolydd o'r Gwasanaeth Ieuenctid ddod i gyfarfod o'r Cyngor er mwyn rhoi adroddiad manylach ar y digwyddiadau a'r gweithgareddau sy'n cymryd lle yno (unfrydol).

11. Adeilad yr Institiwt

Cyflwynwyd - adroddiad llafar gan y Clerc ar Adeilad yr Institiwt, a oedd wedi bod mewn trafodaethau gyda cwmni Ap Thomas Cyf.

Nododd y Clerc fod y blaenoriaethau'n cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- (1) Darparu cynlluniau llawr cyfredol - cost o £750.00 + TAW.
- (2) Mesur lloriau yr adeilad sef yr is-lawr, llawr gwaelod, llawr cyntaf a'r ail lawr – cost o £900 + TAW.
- (3) Trefnu archwiliad tamprwydd a cyflwr coed.
- (4) Cynnal archwiliad trydanegol - cost o £1,100 a TAW.

- (5) Cael archwiliad larwm tân, a gwneud asesiad risg tân – hwn yw'r brif flaenoriaeth, ac roedd trafodaethau wedi cychwyn.
- (6) Cynnal archwiliad strwythyrol.
- (7) Trefnu cael archwiliad 'drone' ar gyflwr y tô – cost o £300 a TAW.
- (8) Trefnu Asesiad Risg Legionella.
- (9) Trefnu cael costau am wasanaeth gwahanol arbenigwyr a fydd yn cael eu cyflogi yn uniongyrchol gan y Cyngor Tref – cost o £250.00 + TAW.
- (10) Adroddiad gweledol rhagarweiniol ar gyflwr allanol yr adeilad yn unig yn £750 + TAW.

Penderfynwyd awdurdodi'r Clerc i barhau gyda'r gwaith (unfrydol).

12. Cofeb Rhyfel Capel Ebenezer

Cyflwynwyd - adroddiad llafar y Clerc ar yr uchod, yn nodi fod y Gofeb ar y funud gan yr Ymgymerywr Angladdau yn Llanrug. Roedd y Gofeb yn drwm iawn, a bod angen llawer o feddwl o ran sut y byddai'r Gofeb yn cael ei chludo i Adeilad yr Institiwt.

Penderfynwyd nodi'r uchod, a gofyn wrth yr Ymgymerywr Angladdau yn Llanrug am gymorth i gludo'r Gofeb i Adeilad yr Institiwt (unfrydol).

13. Deddf Cynllunio Gwald a Thref 1990 – Gorchymyn Cau Priffyrdd (tir i'r de ddwyrain o Lôn Cae Darbi, Stâd Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon

Cyflwynwyd - copi o'r Gorchymyn drafft a'r Hysbysiad Cyhoeddus.

Gofynnwyd beth oedd ystyr "stopping-up" yn y Gorchymyn, a nododd y Clerc y bydd yn gwneud ymholiadau.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth (unfrydol).

14. Gwaith yr Arolygiaeth Gynllunio ac ymgysylltiad Cyngorau Tref a Chymuned â'r system gynllunio

Cyflwynwyd - adroddiad ar gyflwyniad fu gymryd lle yn Llandudno ar y 24ain o Ionawr.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth, sy'n wybodaeth ddefnyddiol iawn ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio (unfrydol).

15. Makaton

Cyflwynwyd - cais gan Ceri Bostock i ddod gerbron y Cyngor i esbonio sut gall Caernarfon ddod yn Dref Makaton.

Nododd y Dirprwy Faer bod Ceri Bostock yn awyddus i Gaernarfon fod yn dref Makaton gyntaf yng Nghymru. Roedd yn bryderus fod Makaton yn cael ei

ddisodli gan fath newydd o Makaton ym mis Mawrth, ond nad yw ar gael yn y Gymraeg, ac y byddai hyn yn effeithio ar y llyfrau ac yn y blaen fydd ar gael.

Penderfynwyd estyn gwahoddiad i Ceri Bostock ddod i gyfarfod o'r Cyngor er mwyn rhoi adroddiad manylach ar sut gall Caernarfon ddod yn Dref Makaton (unfrydol).

16. Gohebiaeth Amrywiol

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, ohebiaeth o ran y canlynol.

- Cymdeithas Eryri
- Diwrnod Rhyngwladol y Ferch 2020
- "Up Hill Down Dale - Snowdonia Slate Trail"

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth (unfrydol).

17. Rhybuddion o Gynnig

(i) Calendr Cyfarfodydd

Cyflwynwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Eleri Lovgreen:

"Ein bod yn argraffu Calendrau sy'n cyd-reddeg efo blwyddyn y Cyngor, hynny ydi o fis Mai i fis Mai. Byddai hynny'n golygu bod holl gyfarfodydd y flwyddyn yn cael eu cyhoeddi ar ddechrau blwyddyn newydd."

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc argraffu Calendrau sy'n cyd-reddeg efo blwyddyn y Cyngor, hynny ydi o fis Mai i fis Mai o Fai 2020 ymlaen (unfrydol).

(ii) Taith Llynedd i Iwerddon

Cyflwynwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Maria Sarnacki:

"A allwn i gynnig ein bod unwaith eto yn codi eitem am greu pwyllgor i drafod canlyniad taith y llynedd i Iwerddon? Mae'n fy mhoeni ein bod yn gadael hyn fynd. Mae hyn wedi'i ysgogi gan stori a welais yn y "Daily Post" am Gaer Rufeinig Segontium, a rhai adolygiadau a welais ar Trip Advisor oedd yn negyddol iawn."

Nodwyd bod angen gwneud pethau gwahanol er mwyn denu mwy o dwristiaeth i Gaernarfon

Penderfynwyd (unfrydol) gofyn i'r Clerc i:

(1) Ail-greu'r pwyllgor i drafod canlyniad taith y llynedd i Iwerddon.

(2) Gysylltu efo CADW er mwyn cael cadarnhad o'u dyletswyddau yng nghyd-destun rhai o'u safleoedd yn y dref.

18. Cwestiynau

Mynwent Hen Eglwys Llanbeblig

Nodwyd bod cyfarfod wedi ei drefnu efo'r Eglwys yng Nghymru er mwyn cael diweddariad o ran y cynlluniau i dacluso safle Hen Fynwent Llanbeblig am 5.30 p.m., ddydd Iau, 13eg o Chwefror, yn Adeilad yr Institiwt.

19. Dymuniadau Gorau

Nodwyd bod y Cyngorydd W.L.Davies yn yr ysbyty, a dymunwyd iddo adferiad llwyr a buan.

Nodwyd yn ogystal mai dyma oedd cyfarfod olaf Gwyneth, yr Ysgrifenyddes, yn sgil ei hymddeoliad. Diolchwyd iddi am ei gwaith caled a'i chyfeillgarwch dros y blynyddoedd, a dymunwyd iddi ymddeoliad hir a hapus.

Gorffennodd y cyfarfod am 8.05 p.m.

Arwyddwyd

Dyddiad